

Atodiad E



Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC)

Enw'r Polisi neu'r Arfer	Cynllun Datblygu Lleol Newydd		
Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y Polisi neu'r Arfer	James Harland		
Enw'r swyddog (ion) sy'n llenwi'r ffurflen asesu effaith	Richard Clarke		
Gwasanaeth	Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol	Dyddiad yr Asesiad	Mai 2019

Llenwyd yr AEC gan:		Cytunwyd ar yr AEC gan y Pennaeth Gwasanaeth:	
Dyddiad	Mai 2019	Dyddiad	Mai 2019
Enw(au)	Richard Clarke	Enw	James Harland
Llofnod(ion)	<i>R A Clarke</i>	Llofnod	<i>J A Harland</i>

CAM 1 – Nodwch Brif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Arfer

1. Beth sy'n cael ei asesu? (**Cliciwch ddwywaith ar y bocs a dewiswch 'checked'** i roi croes X)

- Polisiâu neu arferion newydd a diwygiedig
- Trefnau newydd (sy'n addasu arferion darparu gwasanaeth neu gyflogaeth)
- Cynigion adolygu neu ad-drefnu gwasanaeth sy'n effeithio ar y gymuned ac/neu staff
- Cynigion effeithlonrwydd neu arbed
- Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
- Penderfyniadau yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach
- Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig, ee, gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol
- Arall, eglurwch yn y bocs isod :

2. Beth yw nodau ac amcanion cyffredinol y polisi neu'r arfer?

Rhoi i'r Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, fframwaith polisi cynllunio cyfoes ar gyfer Ardal y Cynllun. Diffinnir Ardal y Cynllun y mae'r CDLIN yn berthnasol iddi fel Bwrdeistref Sirol Conwy heb gynnwys yr ardal o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae hwn yn uwch asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i ganfod sut y mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o fewn y gymuned.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cysylltu â dogfennau strategol trosfwaol Conwy:

- Y Strategaeth Gymunedol – Un Conwy (meysydd blaenoriaeth)
- Y Cynllun Corfforaethol (meysydd blaenoriaeth)
- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (meysydd blaenoriaeth)
- Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (meysydd blaenoriaeth)
- Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (nodau/meysydd blaenoriaeth)
- Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (themâu blaenoriaeth)
- Y Strategaeth Dai Leol (y weledigaeth neu'r prif nod)

Y weledigaeth arfaethedig ar gyfer y CDLIN yw:

Erbyn 2033, bydd Sir Conwy yn cynnig gwell cyfleoedd i fyw, gweithio ac ymweld â hi. Bydd ansawdd bywyd da yn cael ei gynni i bawb, gan gefnogi amrywiaeth pobl a lleoedd Sir Conwy. Bydd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg mewn sawl cymuned yn cael ei werthfawrogi a'i gryfhau. Bydd pobl hŷn Sir Conwy yn cael eu hannog i fyw bywydau gweithgar, iach a llawn wrth heneiddio. Bydd gwell addysg, cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol ar gael i annog pobl ifanc i aros yn Sir Conwy a dychwelyd yma a chynnal twf. Darperir dewis ehangach o lety wedi'i ddylunio'n dda ar draws Sir Conwy, yn seiliedig ar yr angen lleol am dai fforddiadwy a thai marchnad agored.

Bydd pwyslais newydd ar greu lleoedd a mentrau sy'n arwain adfywio yn sicrhau bod datblygu o ansawdd uchel a dyluniad da yn cefnogi'r gwaith o greu lleoedd iachach a mwy bywiog gan adlewyrchu safle Sir Conwy ym Margen Twf y Gogledd.

Byddwn yn gwella cryfder economaidd canolfannau cyflogaeth Sir Conwy, a adeiladwyd o amgylch y cysylltiadau trafnidiaeth strategol ar draws y sir. Bydd gan Sir Conwy rwydwaith ffyniannus o drefi a phentrefi, ac economi wledig hyfyw sy'n gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Bydd rhagor o fuddsoddiad mewnol, seilwaith, a darpariaeth teithio llesol yn cael ei annog i gynnal datblygiad cynaliadwy lle bydd yn gydnaws â'r angen i liniaru achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog Sir Conwy yn cael ei gwarchod a'i hybu; gan gydnabod ei phwysigrwydd i les pobl a bywyd gwyllt, ac i'r economi dwristiaeth.

Amcanion Strategol CDLI Newydd Conwy:

Amcan Strategol 1 (SO1): Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol ac at wella lles yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses gynhwysol o greu ac adfywio lleoedd sy'n sicrhau twf yn y dyfodol a bod datblygu'n digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sy'n ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd iachach, sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd wedi'i chefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i greu lleoedd rhagorol.

Amcan Strategol 2 (SO2): Hyrwyddo strategaeth holistig ar gyfer cyd-leoli twf tai a chyflogaeth drwy ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a safleoedd ar gyfer sipswn a theithwyr, mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a sicrhau bod y mathau a'r amrediad cywir o dai o ran math, maint a deiliadaeth yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r seilwaith cymunedol angenrheidiol.

Amcan Strategol 3 (SO3): Darparu canolfannau tref a masnachol deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ail-ddiffinio eu rôl ac annog amrywiaeth o weithgareddau a defnyddiau.

Amcan Strategol 4 (SO4): Cyfrannu at naws lle ac at iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y boblogaeth bresennol, a'r boblogaeth yn y dyfodol, fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.

Amcan Strategol 5 (SO5): Annog lles meddwl a chorfforol drwy ddarparu a diogelu rhwydweithiau o ardaloedd hamdden a mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel.

Amcan Strategol 6 (SO6): Darparu datblygu cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd drwy ehangu'r dewis o drafnidiaeth gynaliadwy er mwyn rhoi mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol i gymunedau Conwy, drwy hybu rhwydwaith o lwybrau byrrach, mwy llesol ac effeithlon ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, maint, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiadau newydd.

Amcan Strategol 7 (SO7): Cefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio drwy fanteisio ar sefyllfa strategol Conwy yn y

cyd-destun rhanbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth holistig sy'n cyd-leoli twf cyflogaeth a thwf tai, a fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r math iawn mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn cefnogi clystyrau a rhwydweithiau busnes, yn cynyddu sgiliau mewn swyddi gwerth uchel ac yn darparu'r seilwaith newydd angenrheidiol. Bydd hyn yn hwyluso lleoli busnesau newydd yng Nghonwy a thwf y busnesau presennol.

Amcan Strategol 8 (S08): Annog a chefnogi twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygiad yr economi ac at gadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol, ond yn cydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau a chymunedau lleol a bod angen gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a naturiol.

Amcan Strategol 9 (S09): Hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog drwy sefydlu mentrau newydd, ehangu busnesau presennol a mabwysiadu dull adeiladol tuag at amaeth ac arferion ffermio newydd.

Amcan Strategol 10 (S010): Sicrhau cymysgedd priodol o ynni, gan gynnwys hyrwyddo Morlyn Ynni Llanw, sy'n cynnig manteision i economi a chymunedau Conwy ond yn lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol.

Amcan Strategol 11 (S011): Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gan effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a sicrhau y gwneir defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.

Amcan Strategol 12 (S012): Gwarchod a chadw asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ansawdd uchel Conwy.

Amcan Strategol 13 (S013): Cefnogi cyfleoedd twf, adfywio a datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol ond, ar yr un pryd, bod yn ymwybodol ac ymatebol i'r heriau sy'n dod oddi wrth bwysau naturiol.

Amcan Strategol 14 (S014): Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn.

Amcan Strategol 15 (S015): Lleihau faint y mae pobl a phethau'n dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwyso darparu datblygu a goleuadau i gadw pobl ac eiddo'n ddiogel â'r angen i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear o ran eu hansawdd a faint sydd ohonynt.

3. Pwy mae'r polisi neu'r arfer yn bwriadu ei helpu neu elwa (cyfranogion)?

- Gwasanaethau'r Cyngor - Rheoli Datblygu / Addysg / Priffyrdd / Tai / Adfywio ayb drwy ddarparu cynllun datblygu cyfredol i'w ddefnyddio ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, sy'n ceisio diwallu gofynion cynllunio defnydd tir y Cyngor.
- Asiantaethau Sector Cyhoeddus – Byrddau Iechyd / Cynulliad Cymru / Darparwyr Isadeiledd drwy nodi gofynion cynllunio defnydd tir y sefydliadau hyn a gweithredu polisiau (lle bo'n briodol) i'w cynorthwyo i gwrdd â'u hamcanion.
- Datblygwyr / Tirfeddianwyr – Cyflogwyr / Adeiladwyr tai / Manwerthwyr / Gweithredwyr Twristiaeth
- Y Cyhoedd yn Gyffredinol – Pobl yn gwneud ceisiadau cynllunio drwy ddarparu polisiau clir, perthnasol sydd o gymorth i ddiwallu anghenion cymunedau Conwy
- Aelodau Etholedig

4. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol neu gymuned gyda buddiannau cyffredin?

- Asiantaethau yn y Sector Cyhoeddus – Byrddau Iechyd / Y Cynulliad Cenedlaethol / Darparwyr Isadeiledd
- Datblygwyr / Tirfeddianwyr – Cyflogwyr / Adeiladwyr Tai / Adwerthwyr / Gweithredwyr Twristiaeth
- Grwpiau Cymunedol – Cynghorau Tref a Chymuned / Grwpiau Buddiant Arbennig / Trigolion Conwy ac ymwelwyr â Chonwy
- Aelodau Etholedig

CAM 2 – Ystyried Gwybodaeth Bresennol a Beth Mae Hyn yn Dweud Wrthyhch

Wrth lenwi'r adran hon, mae angen i chi ystyried os oes gennych wybodaeth ddigonol er mwyn llenwi eich AEC, neu a oes angen i chi gynnal cyfnod ymgysylltu/ymgyngori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r broses AEC yn eich gorchymyn i **gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir a gyda'r rhai sydd â diddordeb yn y modd rydych yn cyflawni eich swyddogaethau.** Mae'n rhaid i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r arfer y cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb arno. Efallai eich bod eisoes wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar yn benodol ar y polisi neu'r arfer hwn. Efallai bod rhai o swyddogion eraill CBSC wedi gwneud gwaith ymgysylltu a fydd yn berthnasol i'r AEC hwn a gallwch adolygu'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned i ddarganfod pa weithgarwch ymgysylltu sydd wedi digwydd yng Nghonwy a phenderfynu a yw hyn yn berthnasol. Os nad oes unrhyw wybodaeth o'ch ymgysylltu blaenorol yn berthnasol i'r AEC, neu ddim ond ychydig iawn ohono, dylech ystyried gwneud rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch cyfranogion a gyda grwpiau o gynrychiolwyr perthnasol i sicrhau nad ydych chi, heb yn wybod i chi, yn anwybyddu anghenion pob grŵp a ddiogelir.

5. Beth ydych chi eisoes yn gwybod am yr effaith ar bob nodwedd a ddiogelir o'ch profiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol neu ymgysylltu neu ymgynghori blaenorol? Gallech gyfeirio at y Ffurflen Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol a'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned.

'Ardal y Cynllun' y mae'r CDLIN yn berthnasol iddi yw Bwrdeistref Sirol Conwy (BSC) heb gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Mae cryn dipyn o'r data sydd ar gael yn cwmpasu awdurdodau lleol yn eu cyfanrwydd, neu mae wedi'i rannu'n Wardiau neu ardaloedd Cynghorau Cymuned nad yw eu ffiniau'n cyd-fynd â rhai APCE. Oni nodir yn wahanol daw'r ffigyrau canlynol o gyfrifiad 2011, gyda'r data ar gyfer Conwy'n cynnwys BSC i gyd y tu mewn a'r tu allan i APCE. Gan mai dim ond 4% o boblogaeth BSC sy'n byw o fewn y Parc Cenedlaethol¹ a chan mai data cyfyngedig sydd ar gael mewn perthynas ag Ardal y Cynllun yn benodol, ystyrir ei bod yn rhesymol defnyddio'r ffigyrau hyn lle y bo'n angenrheidiol i ddarparu trosolwg o amrywiaeth yng Nghonwy.

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer fesul nodwedd a ddiogelwyd
-------------------------	--

Hil
Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y boblogaeth ethnig sy'n byw yng Nghonwy, Cymru a Lloegr.
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

	Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	%	%	%
Yr holl bobl	115,228		3,063,456	56,075,912
Gwyn Prydeinig	109,911	95.4%	93.2%	80.5%
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	65	0.1%	0.1%	0.1%
Gwyn arall	2,573	2.2%	2.3%	5.3%
Cymysg	894	0.8%	1.0%	2.2%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	876	0.8%	2.3%	7.5%
Du neu Ddu Prydeinig	199	0.2%	0.6%	3.3%
Tsieineaidd	376	0.3%	0.4%	0.7%
Grŵp ethnig arall	334	0.3%	0.5%	1.0%

Mae gan Gonwy gyfran uchel o drigolion Gwyn Prydeinig (95.4%) o'i gymharu â Chymru a Lloegr. Mae hyn yn dynodi mai poblogaeth ethnig fach iawn sydd gan Gonwy. Mae'r CDLI yn berthnasol i'r nodwedd warchoddedig hon gan fod mynediad at dai diogel a phriodol yn angen sylfaenol i'r holl aelwydydd.

Yn fwy penodol, mae darparu safle(oedd) ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn ofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol, pan fo'r Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn dangos fod yna angen. Nodwyd yn helaeth fod Sipsiwn a Theithwyr yn dioddef o nifer o anghyfartaleddau², gyda diffyg llety addas yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol. Mae safle preswyl i sipsiwn eisoes wedi ei sefydlu yng Nghonwy i ddiwallu angen a nodwyd yn flaenorol. Ond mae data presennol yn dangos gofyniad am safle tramwy newydd yng Nghonwy a bydd y CDLIN yn ceisio dyrannu hynny. Byddai darparu safle o'r fath yn galluogi grwpiau Sipsiwn a Theithwyr sy'n symud drwy ogledd Cymru i aros yn gyfreithlon ar safle wedi ei adeiladu'n bwrpasol. Gan hynny, ystyrir y bydd effaith y CDLIN o fudd i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghonwy a rhanbarth Gogledd Cymru.

Anabledd

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion pobl sy'n byw gydag afiechyd hirdymor cyfyngol
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

	Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	%	%	Nifer
Yr holl bobl	115,228		3,063,456	56,075,912
Cyfyngiad mawr ar weithgareddau beunyddiol	13,896	12.1%	11.9%	8.5%
Cyfyngiad bach ar weithgareddau beunyddiol	14,019	12.2%	10.8%	9.4%
Dim cyfyngiad ar weithgareddau beunyddiol	87,313	75.8%	77.3%	82.1%
16-64 oed	67,940			
Cyfyngiad mawr ar weithgareddau beunyddiol	5,209	7.7%	8.3%	5.8%
Cyfyngiad bach ar weithgareddau beunyddiol	5,982	8.8%	8.6%	7.2%
Dim cyfyngiad ar weithgareddau beunyddiol	56,749	83.5%	83.1%	87.0%

Mae data ar afiechyd hirdymor cyfyngol o Gyfrifiad 2011 yn cael ei ddefnyddio'n eang i roi amcangyfrif o anabledd. Mae'r term 'afiechyd hirdymor cyfyngol' yn cynnwys hunanasesiad i nodi pa un a oes gan unigolyn afiechyd hirdymor cyfyngol, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar ei weithgareddau beunyddiol neu'r gwaith y gall ei wneud, gan gynnwys problemau sydd i'w priodoli i henaint. Ymhlith y boblogaeth 16-64 oed, mae'r gyfran o drigolion Conwy y mae anabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau beunyddiol yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, er bod anabledd cyfyngol iawn yn is na'r cyfartaledd Cenedlaethol. Ar gyfer y boblogaeth gyfan fodd bynnag, mae'r cyfrannau o ran anableddau lled gyfyngol a chyfyngol iawn ymhlith poblogaeth Conwy yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae hyn yn debygol o fod i'w briodoli i'r gyfran uchel o'r boblogaeth sy'n heneiddio a'r boblogaeth ifanc gymharol fach yng Nghonwy, ynghyd â'r ffaith bod y lefel o afiechyd hirdymor mewn poblogaeth yn cynyddu gydag oedran³.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion nifer y bobl sy'n byw yng Nghonwy gydag anableddau dysgu, synhwyraidd ac / neu gorfforol (2017-18).

Ffynhonnell: Cofrestr StatsCymru o unigolion gydag anabledd corfforol / synhwyraidd ac unigolion gydag anableddau dysgu

	Conwy		Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%
Yr holl bobl (2017)	116,863		3,125,165	
Nam ar eu golwg ac / neu'n fyddar, ac / neu'n anabl yn gorfforol	283	0.2%	15,041	0.5%
Anabledd corfforol yn unig	6,553	5.6%	39,284	1.3%
Byddar a thrwm eu clyw yn unig	51	0.0%	12,295	0.4%
Anabledd dysgu	633	0.5%	13,843	0.4%
Cyfanswm gydag unrhyw anabledd	7,520	6.4%	80,463	2.6%

Namau corfforol sy'n rhoi cyfrif am y mwyafrif o'r anableddau yng Nghonwy (5.7%). Mae'r CDLI yn berthnasol i'r nodwedd warchoddedig hon gan fod mynediad at dai diogel a phriodol yn angen sylfaenol i'r holl aelwydydd. Mae'r Strategaeth Dai yn y CDLI yn ceisio hybu cyflenwad o dai hygrych o ansawdd uchel i aelwydydd â meddianwyr anabl. Mae'r ystadegau uchod yn dynodi'n glir bod poblogaeth Conwy'n cynnwys nifer sylweddol o drigolion ag anableddau ac/neu afiechydon hirdymor cyfyngol. Bydd y CDLI yn helpu i sicrhau bod cyflenwad parhaus o gartrefi wedi'u haddasu'n briodol i ddiwallu'r anghenion adnabodedig hyn. Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol i'r holl ddatblygiadau gydymffurfio â pholisïau'r Egwyddorion Datblygu sy'n cynnwys gofynion o ran lefelau priodol o hygrychedd mewn adeiladau, er bod yr elfen hon o ddyluniad adeilad yn cael ei rheoli'n bennaf gan Reoliadau Adeiladu, sydd y tu hwnt i gwmpas y CDLI.

Rhyw

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y ganran o'r boblogaeth yng Nghonwy sy'n wrywod neu'n fenywod. Ffynhonnell: Amcangyfrifiad o boblogaeth canol blwyddyn StatsCymru 2017

	Conwy		Cymru	
	Nifer*	%**	Nifer*	%**
Cyfanswm y boblogaeth	116,900		3,125,200	
Gwrywod	56,900	48.6%	1,540,200	49.3%
Benywod	60,000	51.4%	1,585,000	50.7%

*mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.

**caiff y ganran ei chyfrifo o ddata heb ei dalgrynnu.

Mae'r tabl isod yn nodi'r cymarebau rhwng gwrywod a benywod ar gyfer Conwy, Cymru a'r DU.
Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

	Conwy	Cymru	Y DU
Cymhareb gwrywod:benywod	105	103	103
0-15 oed	95	95	95
16-64 oed	103	101	101
65+ oed	119	118	120
85+ oed	182	179	179

Diffiniad

Cymhareb gwrywod:benywod – nifer y benywod yn y boblogaeth am bob 100 o wrywod


Mae gan Conwy gyfran ychydig yn uwch o drigolion benywaidd na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Gall fod hyn i'w briodoli'n rhannol i'r disgwyliad oes uwch ar gyfer benywod a'r gyfran uchel o bobl hŷn sy'n byw yng Nghonwy (gweler isod) yn ogystal ag allfudiad pobl ifanc, yn enwedig dynion ifanc. Mae'r CDLIN yn berthnasol i'r nodwedd warchoddedig hon gan y bydd y polisïau cynllunio yn y CDLIN yn berthnasol i bob grŵp oedran.

Oed

Mae'r tabl a'r pyramid isod yn rhoi manylion oedran y boblogaeth yng Nghonwy, yng Nghymru a'r DU (2017)

Ffynhonnell: Amcangyfrifiad o boblogaeth canol blwyddyn StatsCymru 2017; Proffil poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwyⁱ

	Conwy		Cymru	Y DU
Pob oed	116,900		3,125,200	66,040,200
0-15	18,900	16.2%	17.9%	18.9%
16-64	66,200	56.6%	61.5%	62.9%
65+	31,700	27.2%	20.6%	18.2%
85+	4,800	4.1%	2.6%	2.4%



Mae'r 16.2% o'r boblogaeth dan 16 yng Nghonwy yn cymharu â 17.9% yng Nghymru gyfan a 18.9% ledled y DU. Yn 2017 roedd 66,200 o bobl o oedran gweithio (16-64) yng Nghonwy. Mae hyn yn gyfystyr â 56.6% o'r boblogaeth, o'i gymharu â 61.5% yng Nghymru a 62.9% yn y DU. Effeithir yn arbennig ar nifer y bobl yn y boblogaeth o oedran gweithio yn y Fwrdeistref Sirol gan allfudiad oedolion ifanc yn y grŵp oedran 18-24.

Roedd 31,700 o bobl 65 oed a throsodd yng Nghonwy yn 2011. Mae'r 27.2% o'r boblogaeth yng Nghonwy sy'n 65 oed a throsodd yn cymharu â 20.6% yng Nghymru gyfan ac 18.2% ledled y DU. Dim ond mewn ardaloedd sy'n hysbys fel lleoliadau ymddeol, megis arfordir de orllewin Lloegr, y ceir cyfrannau yr un mor uchel o'r boblogaeth sydd o oedran ôl-ymddeol. Mae cyfran uchel y bobl oedran yn ein poblogaeth hefyd yn golygu bod cyfrannau'r plant (0-15) a thrigolion o oedran gweithio (16-65 oed) yn sylweddol is na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a'r DU. Mae cyfran uchel y bobl dros 65 oed i'w phriodoli'n bennaf i ddau ffactor; yn gyntaf, mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaethau yn golygu bod pobl yn byw yn hwy; ac yn ail y ffaith bod y garfan fawr a aned pan fu ymchwydd yn y gyfradd genedigaethau ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio.

Diffinnir pobl oedran iawn fel y rheiny yn y boblogaeth sy'n 85 a throsodd (sydd hefyd wedi'u

cynnwys yn y grŵp oedran 65+). Roedd 4,800 o bobl 85 oed a throsodd yn y Fwrdeistref Sirol yn 2017. Mae'r 4.1% o'r boblogaeth yng Nghonwy sy'n 85 oed a throsodd yn cymharu â 2.6% yng Nghymru gyfan a 2.4% ledled y DU

Mae oedran yn berthnasol i'r CDLI gan fod y strategaeth dai yn y Cynllun yn ceisio cyflenwi llety addas, hygyrch a fforddiadwy ar gyfer pob grŵp oedran. Fodd bynnag mae'r gyfran arbennig o uchel o bobl hŷn sy'n byw yng Nghonwy'n cyfiawnhau datblygu strategaeth dai yn benodol ar gyfer pobl hŷn. Bydd y CDLIN yn dwyn ystod o gyfleoedd cyflogaeth ac yn annog cyflogwyr i uwchsgilio a chyflogi pobl leol. Mae hyn yn berthnasol i bobl o oedran gweithio yng Nghonwy, yn enwedig pobl ifanc, y mae cyfran fawr ohonynt yn nodweddiadol wedi bod yn gadael yr ardal i gael gwaith. Bydd yr adran yn y CDLI sy'n ymwneud â chyfleusterau cymunedol yn sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn cynnwys darpariaeth ddigonol o ran manau agored, er budd pobl ifanc.

Crefydd a Chred

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion crefydd trigolion yng Nghonwy (2011)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

	Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	%	%	%
Yr holl bobl	115,228		3,063,456	56,075,912
Cristnogaeth	74,506	64.7%	57.6%	59.3%
Bwdhaeth	347	0.3%	0.3%	0.4%
Hindŵaeth	206	0.2%	0.3%	1.5%
Iddewiaeth	62	0.1%	0.1%	0.5%
Islam	583	0.5%	1.5%	4.8%
Sikhiaeth	17	0.0%	0.1%	0.8%
Unrhyw grefydd arall	478	0.4%	0.4%	0.4%
Dim crefydd	30,017	26.1%	32.1%	25.1%
Crefydd heb ei ddatgan	9,012	7.8%	7.6%	7.2%

Mae cyfran uwch o Gristnogion yn byw yng Nghonwy (64.7%) nag yng Nghymru a Chymru a Lloegr.

Tueddfryd Rhywiol

Nid yw ystadegau am hunaniaeth rywiol ar gael ar lefel Conwy. Mae'r Arolwg Aelwydydd Integredig a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi amcangyfrifon ar lefel Cymru gyfan, ond nid oes data'n cael ei ryddhau ar gyfer Conwy gan eu bod yn seiliedig ar sampl a chan y tybir nad ydynt yn

gadarn (mae maint y sampl yn rhy fach i fod yn gynrychioliadol). Ystadegau arbrofol yw'r rhain felly nid ydynt wedi cael eu datblygu'n llawn eto ac nid ydynt wedi cael eu cymeradwyo fel Ystadegau Gwladol.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am dueddfryd rhywiol y boblogaeth yng Nghymru a'r DU sy'n 16 oed a throsodd (2017).

Ffynhonnell: Bwletin Ystadegol Tueddfryd Rhywiol Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2019.

	Cymru	Y DU
Heterorywiol / strêr	95%	93.9%
Hoyw / Lesbiad	1%	1.3%
Deurywiol	0.7%	0.7%
Arall	0.5%	0.6%
Ddim yn gwybod / gwrthod / dim ymateb	2.5%	4.1%

Nid oes data dibynadwy ar gael am faint y boblogaeth hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol yn y DU. Mae amcangyfrifon o ffynonellau amrywiol yn amrywio o 0.3% i 10%, ond nid ydynt yn ystyried y rhai nad ydynt yn dweud neu y cafwyd gwybodaeth anghywir amdanynt ac felly mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn credu nad yw'r un o'r rhain yn darparu sail ddigonol ar gyfer amcangyfrif. Mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn rhoi amcangyfrif swyddogol bod 5-7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol.

Ail-alinio Rhyw

Nid oes data am bobl sy'n drawsryweddol ar gael ar hyn o bryd ar lefel awdurdodau unedol nac ar lefel genedlaethol. Ni ellir darparu ffigwr o ffynhonnell weinyddol ychwaith. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cynnal ymchwil i asesu dichonoldeb casglu data ar statws trawsryweddol, ac mae wedi dod i'r casgliad, oherwydd natur sensitif y mater, nad yw'n ddichonol defnyddio cwestiwn mewn arolwg i gasglu'r wybodaeth hon.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Mae'r Tabl isod yn rhoi manylion statws priodasol trigolion sy'n byw yng Nghonwy a Chymru.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

	Conwy		Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%
Yr Holl Drigolion Arferol sy'n 16 Oed a Throsodd	96102		2507160	
Sengl (Erioed Wedi Priodi neu Erioed Wedi Cofrestru Partneriaeth Sifil o'r Un Rhyw)	27729	28.9	840347	33.5

Priod	46379	48.3	1167315	46.6
Mewn Partneriaeth Sifil Gofrestredig o'r Un rhyw	197	0.2	4654	0.2
Wedi Gwahanu (ond yn Dal yn Briod yn Gyfreithiol neu'n Dal yn Gyfreithiol mewn Partneriaeth Sifil o'r Un Rhyw)	2229	2.3	54686	2.2
Wedi Ysgaru neu Wedi Bod mewn Partneriaeth Sifil o'r Un Rhyw sydd Bellach Wedi'i Diddymu'n Gyfreithiol	10215	10.6	242193	9.7
Yn Weddw neu'n Bartner sy'n Fyw o Bartneriaeth Sifil o'r Un Rhyw	9353	9.7	197965	7.9

Mae gan Gonwy gyfran ychydig yn uwch o barau priod (48.3%) o'i gymharu â Chymru (46.6%), a chyfran is o bobl sengl. Gall fod hyn i'w briodoli'n rhannol i'r gyfran is o bobl ifancach yng Nghonwy o'i gymharu â'r cyfartaledd Cenedlaethol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Dim data.

Y Gymraeg

Mae trigolion sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhoi cyfrif am 19% o gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru, tra bo'r ffigwr yn codi i 27.4% ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Tywyn a Bae Cinmel yw'r ardaloedd â'r lleiaf o Siaradwyr Cymraeg (llai na 12%) tra bo'r Gymraeg yn fwy amlwg yn Llanrwst ac yn yr ardaloedd gwledig i'r de a'r dwyrain o fan hyn, gan godi i 71% o drigolion Uwchaled sy'n siarad Cymraeg⁴.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion gwybodaeth o'r Gymraeg (2011).

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011


	Conwy		Cymru
	Nifer	%	%
Yr holl bobl 3+ oed	111,724		2,955,841
Dim gwybodaeth o'r Gymraeg	67,716	60.6%	73.3%
Yn deall Cymraeg lafar yn unig	10,655	9.5%	5.3%
Yr holl siaradwyr Cymraeg	30,600	27.4%	19.0%
Yn siarad ond ddim yn darllen nac yn ysgrifennu Cymraeg	4,603	4.1%	2.7%
Yn siarad ac yn darllen ond yn methu ag ysgrifennu Cymraeg	2,706	2.4%	1.5%
Yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg	23,063	20.6%	14.6%
Cyfuniad arall o sgiliau	2,981	2.7%	2.5%

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran yng Nghonwy a Chymru (2011).
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

	Conwy			Cymru		
	Cyfanswm	Yn siarad Cymraeg	% Siaradwyr Cymraeg	Cyfanswm	Yn siarad Cymraeg	% Siaradwyr Cymraeg
Yr holl bobl 3+ oed	111,724	30,600	27.4%	2,955,841	562,016	19.0%
3 - 4	2,335	740	31.7%	70,686	16,495	23.3%
5 - 15	13,287	6,539	49.2%	377,995	152,255	40.3%
16 - 19	5,239	1,953	37.3%	161,952	43,651	27.0%
20 - 44	30,281	8,420	27.8%	968,546	150,742	15.6%
45 - 64	32,420	6,703	20.7%	814,118	107,941	13.3%
65 - 74	13,966	2,936	21.0%	300,550	45,112	15.0%
75+	14,196	3,309	23.3%	261,994	45,820	17.5%

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fwyaf amlwg ymhlith y rhai sydd o oedran ysgol; mae 49.2% o'r plant 5-15 oed yn gallu siarad Cymraeg yng Nghonwy, o'i gymharu â 40.3% yng Nghymru.

Mae'r map canlynol yn rhoi manylion cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy yn ôl ward.
Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2011



Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu tua'r gorllewin, ac wrth deithio i mewn i'r tir o'r llain arfordirol fwy poblog. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei uchaf yn ward ddeheuol wledig Uwchaled (71% yn siarad Cymraeg), ac ar ei uchaf yng nghymuned arfordirol ddwyreiniol Tywyn a Bae Cinnel (llai na 12%).

Mae'r CDLIN yn berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon gan fod y Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol – Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20⁵ yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio.

Arall (nodwch)

6. Crynowch y data atodol perthnasol, ymchwil a'r wybodaeth rheoli perfformiad sydd eisoes gennych:

Data / Gwybodaeth	Esiamplau
<p>Nododd sgrinio'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb y CDLI Newydd fel un â'r potensial o gael effaith wahaniaethol mewn perthynas â nodweddion a ddiogelir yr Iaith Gymraeg a Hil (Sipsiwn a Theithwyr). Mae asesiad effaith iaith Gymraeg ar y gweill a bydd yn parhau drwy broses y CDLIN i sicrhau fod pob cyfle yn cael ei gymryd i ddefnyddio'r CDLIN i gefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg, a lle nodir y posibilrwydd o niwed caiff mesurau eu cymryd i liniaru hyn. Yn nhermau Sipsiwn a Theithwyr, nododd y sgrinio'r manteision posib i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr o ganlyniad i'r CDLIN drwy ddarparu safleoedd wedi eu seilio ar angen a nodwyd.</p>	<p>Sgrinio AEC Cychwynnol Cwynion Canmoliaeth Data Defnyddwyr Gwasanaeth Atborth Defnyddwyr Gwasanaeth Arolygon neu Archwiliadau</p>
Ymchwil neu Wybodaeth Gymharol	Esiamplau
<p>Cyfeiriwch hefyd at y data yn adran 5 uchod.</p> <p>Mae'r camau sy'n rhan o lunio neu adolygu Cynllun Datblygu Lleol wedi eu nodi mewn deddfwriaeth (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005), gyda chanllawiau gweithdrefnol ychwanegol wedi eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Mae'r rhain yn gofyn am lynu at amserlen gaeth ar gyfer llunio Cynlluniau Datblygu Lleol, gan gynnwys camau statudol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a mabwysiadu 3.5 mlynedd yn dilyn cychwyn llunio/adolygu CDLI.</p> <p>Mae peth ymgysylltu wedi digwydd hyd yma gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyrff statudol, cynghorau tref/cymuned ac adrannau mewnol CBSC. Mae disgwyl i ymgynghoriad cyhoeddus o'r Strategaeth a Ffafir ddiwydd yn haf 2019 fel y nodir yng Nghytundeb Darparu'r CDLIN/Cynllun Cynnwys Cymunedau. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn darparu'r cyfle cyntaf ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus gyda phroses y CDLIN a bydd nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau a ddiogelir yn rhan o hyn ar y cam hwn. Hefyd bydd darnau penodol o ymchwil yn cefnogi'r CDLIN yn targedu materion perthnasol i nodweddion a ddiogelir a bydd canlyniadau'r rhain yn cyfrannu at y Cynllun i sicrhau nad yw grwpiau dan anfantais o ganlyniad i'r CDLIN, un ai drwy ei lunio neu drwy ei bolisïau terfynol pan gaiff ei fabwysiadu.</p>	<p>Arolygon Defnyddwyr Gwasanaeth Astudiaethau gan adrannau'r Llywodraeth neu gyrff proffesiynol Data'r Cyfrifiad Prosiectau ac ymchwil ar sail gwasanaeth Pa mor deg yw Cymru (data'r EHRC)</p>

7. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i Ymgysylltu fel y disgrifiwyd ar ddechrau'r adran hon ac ydych chi'n ddigon gwybodus i fwrw ymlaen?

Ydw Nac ydw (***rhowch groes fel sy'n briodol X***) Os Ydych, ewch ymlaen i Gam 3

Os Nac ydych, efallai yr hoffech ystyried cael saib rŵan er mwyn gwneud eich gweithgarwch ymgysylltu (a dylech eu hychwanegu i'ch cynllun gweithredu - Cam 6). Dylech ymgorffori unrhyw wybodaeth a gawsoch o'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn y bocs isod a nodi beth oedd y canfyddiadau allweddol:

Bydd y canlyniadau'n cael eu hychwanegu yma yn dilyn ymgynghoriad y Strategaeth a Ffafir.

CAM 3 – Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cyffredinol y sector cyhoeddus yn golygu bod angen i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion gwahanol grwpiau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i sefydliadau sector cyhoeddus sy'n darparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan ac mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hynny'n arfer y swyddogaethau hynny drwy sicrhau bod ein trefniadau caffael a monitro'n cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.

8. A fydd y polisi neu'r arfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr mewn partneriaeth â sefydliad(au) arall/eraill?

Ydw Nac ydw (***rhowch groes fel sy'n briodol X***) Os Ydych, ewch ymlaen i Gam 4

9. Os Ydych, sut byddwch chi'n cydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Iaith Gymraeg? Meddyliwch am:

Caffael

- Gosod disgwyliadau clir o ran cydraddoldeb yn y dogfennau Tendro a Manylebau
- Ar be seiliwyd eich penderfyniadau yn y broses ddyfarnu
- Bod cymalau'r contract yn cynnwys gofynion cydraddoldeb deddfwriaethol
- Mae mesurau Perfformiad a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth

Partneriaethau

Pwy sy'n gyfrifol am:

- Ffonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Cyflawni camau gweithredu'r AEC
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg

CAM 4 – Asesu'r Effaith

10. Oes unrhyw dystiolaeth o ddefnydd neu fodlonrwydd uwch neu is gan unrhyw grŵp(iau), ac os felly, sut gaiff hyn ei egluro?

11. Yw daearyddiaeth neu ddemograffeg unrhyw grŵp yn datgelu unrhyw beth?

12. Yw unrhyw reolau neu ofynion neu'r modd y cyflawnir polisi neu arfer yn atal unrhyw grwpiau rhag defnyddio neu gael mynediad, neu'n gostwng tebygolrwydd hynny, neu a oes unrhyw rwystrau eraill yn cael eu creu iddynt?

Ee: yn sgil incwm cyfyngedig, lleoliad, amser darparu, mynediad i adeiladau, gwybodaeth neu iaith, rheolau cymhwyso, cod gwisg, materion diwylliannol

13. A ellir cyfiawnhau unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn ar sail gwella cyfleoedd cyfartal neu feithrin perthnasau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rhai nad ydynt yn gwneud?

14. A yw unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon?

Ydi Nac ydi Ddim yn siŵr

(rhowch groes fel sy'n briodol X)

15. Os mai Na oedd eich ateb i Gwestiwn 14, a yw'r rhwystrau a'r cyfyngiadau yn gyfystyr â thriniaeth wahaniaethol i grwpiau penodol?

Ydynt Nac ydynt Ddim yn siŵr

(rhowch groes fel sy'n briodol X)

16. Os mai eich ateb i Gwestiwn 15 oedd Ydynt neu Ddim yn siŵr, rhowch fanylion yn y bocs isod ac eglurwch pam

17. Oes digon o wybodaeth gennych i wneud penderfyniad gwybodus?

Oes Nac oes **(rhowch groes fel sy'n briodol X)**

Os mai eich ateb oedd Oes, cyfiawnhewch hyn:

Os mai eich ateb oedd Nac oes, pa wybodaeth ydych chi angen am grwpiau a ddiogelir?

18. Oes modd cael yr wybodaeth sydd angen yn sydyn ac yn hawdd, neu a ddylid cynnwys casglu data yn y cynllun gweithredu? Rhowch y manylion isod:

CAM 5 – Delio ag Effaith Niweidiol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Arfer

Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried a oes unrhyw fesurau i leihau neu ddileu unrhyw effaith negyddol. Dylech hefyd archwilio dulliau eraill o gyflawni'r un nod ac / neu ddulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau.

19. Pa fesurau fedrwch chi eu cyflwyno i'r polisi neu'r arfer a allai leihau neu ddileu unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon?

20. Pa fesurau a ellid eu cynnwys i gryfhau'r polisi/arfer a meithrin perthnasau da a gweithredu cyfleoedd cyfartal?

21. Pa gamau allech chi eu cymryd i gyflawni'r un nod drwy ddull gwahanol?

CAM 6 – Cynllun Gweithredu

Amlinellwch isod y camau y byddwch yn eu cymryd i fwrw ymlaen â'ch cynnig. Gallai'r rhain gynnwys cyflawni gweithgarwch Ymgysylltu/Cynnwys, casglu data Cydraddoldeb lle nad yw hyn ar gael yn rhwydd helpu gyda'r AEC hwn, cynnal dadansoddiad data o'r data a geir yn y dyfodol i fonitro effaith y polisi / arfer hwn yn barhaus, unrhyw gamau sydd angen i chi eu cymryd i sicrhau bod caffael yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, unrhyw drefniadau sydd angen i chi eu rhoi ar waith i fonitro ac adolygu effaith y polisi / arfer hwn yn y dyfodol, ac yn y blaen.

Cam Gweithredu	Mesur Llywyddiant	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)
Camau i'w cymryd cyn y gellir cwblhau'r polisi/arfer				

Camau ar ôl cwblhau'r AEC a'r polisi / arfer				

CAM 7 – Penderfyniad i Fwrw Ymlaen

22. Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu yng nghamau 1 - 5 uchod, nodwch ar y tabl isod a fedrwch chi fwrw ymlaen â'r polisi neu'r arfer ac os gallwch chi, ar ba sail?

(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Penderfyniad		Cam Gweithredu
<input type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ar ei ffurf bresennol	Cwblhau'r adain Monitro ac Adolygu (Cam 8) i sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd
<input type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i'w wella	Cwblhau'r adrannau Cynllun Gweithredu a Monitro ac Adolygu (Camau 6 ac 8) i asesu'r effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i ddileu unrhyw feysydd lle byddai effaith negyddol a nodwyd yng Ngham 5	Cwblhau Cynllun Gweithredu (Cam 6) i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle mae effaith negyddol a Monitro ac Adolygu (Cam 8) i asesu'r effaith yn barhaus

<input type="checkbox"/> Na ellir	Rhoi'r gorau i'r polisi neu'r arfer hwn gan nad yw'n bosibl mynd i'r afael â'r effaith negyddol, ac ystyried ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r materion	Cwblhau Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn deillio o roi'r gorau i'r polisi a delio â'r effaith negyddol a ddynodwyd
-----------------------------------	--	---

CAM 8 – Trefniadau ar gyfer Monitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae proses yr AEC yn un barhaus, ac nid yw'n dod i ben pan gytunir ar bolisi / arfer a phan gytunir ar AEC a'i gyflwyno. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith polisiâu/arferion o ran cydraddoldeb yn barhaus i nodi a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno'r polisi neu'r arfer newydd hwn.

23. Amlinellwch pa drefniadau y byddwch yn eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r arfer hwn:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys ble bydd canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)

CAM 9 - Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Trefnwch i'ch Pennaeth Gwasanaeth gytuno ar yr AEC ar ôl ei gwblhau, gweler y Polisi AEC yn ymwneud â chyhoeddi trefniadau cyhoeddi ac anfon copi yn ôl at y Swyddog AD a Chydraddoldeb.

CYFEIRIADAU

- ¹ CBSC (2012) *Proffil ardal ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (5^{ed} Rhifyn)*. Ar gael o:
<http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=7915&doc=1960&Language=2>
- ² Equality and Human Rights Commission (2009) *Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review*. Ar gael o:
https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research_report_12inequalities_experienced_by_gypsy_and_traveller_communities_a_review.pdf
- ³ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011) *Pa mor deg yw Cymru?* Ar gael o: <http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru/llyfrgell/pa-mor-deg-yw-cymru/>
- ⁴ CBSC (2013) *Y Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy – Bwletin Ymchwil*. Ar gael o:
<http://www.conwy.gov.uk/sectionextra.asp?cat=10798&Language=2>
- ⁵ Llywodraeth Cymru (2013) *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg*. Ar gael o:
<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?skip=1&lang=cy>